


Addurn Adfent

Bob dydd o ddechrau mis Rhagfyr, torra'r siâp tŷ allan ar gyfer y dyddiad hwnnw a lliwia'r llun. Yna gwna dwll ynddo a rhoi llinyn neu ruban drwyddo a'i hongian naill ai ar dy goeden Nadolig neu'n rhywle arall amlwg yn dy gartref. Paid ag anghofio darllen rhan o'r stori Nadolig sydd ar y cefn!

Crëwyd gan: Nia Williams- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Andy & Rachel Hughes - Saint y Gymuned
Lluniau: Richard Gunther www.lambsongs.co.nz



Pan oedd Elisabeth chwe
mis yn feichiog, anfonodd
Duw yr angel Gabriel i
Nasareth, un o drefi
Galilea, at ferch ifanc o'r
enw Mair.
Luc 1: 26 - 27

Felly dyma'r angel Gabriel
yn dweud wrthi, "Paid bod
ofn, Mair. Byddi di'n cael
mab. Iesu ydy'r enw rwynt
i'w roi iddo."
Luc 1:30-31

Doedd Mair ddim yn
deall o gwbl beth roedd
yn ei feddwl.
Luc 1:29

Meddai'r angel, "Mair,
mae Duw wedi dangos
ffafr atat ti! Mae'r
Arglwydd gyda ti!"
Luc 1:28

Gan fod Joseff yn perthyn i
deulu'r Brenin Dafydd,
gadawodd Nasareth yn
Galilea, a mynd i gofrestru
yn Jwdea - yn Bethlehem,
hynny ydy tref Dafydd.
Luc 2:4

Tua'r un adeg dyma Cesar
Awwgstws yn gorchymyn
cynnal cyfrifiad drwy'r
Ymerodraeth Rufeinig i
gyd
Luc 2:1

Roedd Joseff wedi bod yn
meddwl am hyn pan gafodd
freuddwyd: gwelodd angel Duw
yn dod ato a dweud wrtho,
"Joseff fab Dafydd, paid petruso
mynd â Mair adre i fod yn wraig i
ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd
wedi gwneud iddi ddisgwyl
babi."
Mathew 1: 20

8



9



10




11



12




13



14



15



16



Yn ardal Bethlehem roedd bugeiliaid allan drwy'r nos yn yr awyr agored yn gofalu am eu defaid.

Luc 2:8

Tra oedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni - bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.

Luc 2: 6 - 7

Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi.

Luc 2:5

“Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem. Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!”

Luc 2:11

Ond dyma'r angel yn dweud wrthyn nhw, “Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn.”

Luc 2:10

Yn sydyn dyma nhw'n gweld un o angylion yr Arglwydd, ac roedd ysblander yr Arglwydd fel golau llachar o'u cwmpas nhw. Roedden nhw wedi dychryn am eu bywydau.

Luc 2:9

Pan aeth yr angylion i ffwrdd yn ôl i'r nefoedd, dyma'r bugeiliaid yn dweud wrth ei gilydd, “Dewch! Gadewch i ni fynd i Bethlehem, i weld beth mae'r Arglwydd wedi'i ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd.”

Luc 2:15

Yn sydyn dyma filoedd o angylion eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw! “Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf, heddych ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl.”

Luc 2:13 - 14

“Dyma sut byddwch chi'n ei nabod e: Dewch o hyd iddo yn fabi bach wedi'i lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid.”

Luc 2:12

17




18




19



20



21



22




23



24



25



Aeth y bugeiliaid yn ôl i'w gwaith gan ganmol a moli Duw am bopeth roedden nhw wedi'i weld a'i glywed. Roedd y cwbl yn union fel roedd yr angel wedi dweud.
Luc 2:20

Ar ôl ei weld, dyma'r bugeiliaid yn mynd ati i ddweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd, a beth ddwedodd yr angel wrthyn nhw am y plentyn yma.
Luc 2:17

Felly i ffwrdd â nhw, a dyma nhw'n dod o hyd i Mair a Joseff a'r babi bach yn gorwedd mewn preseb.
Luc 2:6-7

Ar ôl cael gwybod hyn, dyma Herod yn galw'r gwŷr doeth i gyfarfod preifat. Cafodd wybod ganddyn nhw pryd yn union oedd y seren wedi ymddangos. Yna dwedodd, "Ewch i Bethlehem i chwilio am y plentyn. A gadewch i mi wybod pan ddewch o hyd iddo, er mwyn i mi gael mynd i dalu teyrnged iddo hefyd."
Mathew 2: 7 - 8

Pan glywodd y Brenin Herod hyn roedd wedi cynhyrfu'n lân. Roedd cynnwrf yn Jerwsalem hefyd."
Mathew 2:3

Cafodd Iesu ei eni yn Bethlehem yn Jwdea, yn y cyfnod pan oedd Herod yn frenin. Ar ôl hynny, daeth gwŷr doeth o wledydd y dwyrain i Jerwsalem i ofyn, "Ble mae'r un sydd newydd gael ei eni yn frenin yr Iddewon? Gwelon ni ei seren yn codi yn y dwyrain, a dŷn ni yma i dalu teyrnged iddo."
Mathew 2: 1 - 2

Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.
Ioan 3: 16

Pan aethon nhw i mewn i'r tŷ, dyna lle roedd y plentyn gyda'i fam, Mair, a dyma nhw'n disgyn ar eu gliniau o'i flaen a'i addoli. Yna dyma nhw'n agor eu paciau a rhoi anrhegion gwerthfawr iddo - aur a thus a myrr.
Mathew 2:11

Ar ôl gwranddo beth oedd gan y brenin i'w ddweud, i ffwrdd â nhw. Dyma'r seren yn mynd o'u blaen, nes iddi aros uwchben yr union fan lle roedd y plentyn.
Mathew 2:9